

BRO MORGANNWG
CYNLLUN DATBLYGULLEOL NEWYDD
2021-2036

SIPSIWN A THEITWYR

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP11A



Crynodeb Gweithredol

- i. Pwrpas y papur hwn yw rhoi manylion ar sut mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ystyried yr anghenion am lety i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodir yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf y Cyngor (Mehefin 2022) ac esbonio'r rhesymeg y tu ôl i ymagwedd y Cyngor at ddarparu safleoedd sipsiwn a theithwyr i ddiwallu'r angen a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036.
- ii. Mae Rhan 3 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh/GTAA) ac i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi angen heb ei ddiwallu am leiniau cartrefi symudol.
- iii. Paratowyd ALISTh Bro Morgannwg ar ran y Cyngor gan Opinion Research Services (ORS) ac mae'n darparu sylfaen dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ofynion o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn asesiad cadarn a chyfredol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ym Mro Morgannwg ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2021-2036.
- iv. Mae gan y ALISTh ddyddiad gwaelodlin o Chwefror 2022 ac fe'i cwblhawyd ym mis Mehefin 2022 a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 19 Ionawr 2023 (Gweler Cofnod C199).
- v. Fel sy'n ofynnol gan adran 102 Deddf Tai (Cymru) 2014, cyflwynwyd y ALISTh cymeradwy i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023 i'w gymeradwyo'n ffurfiol ac yn dilyn ymatebion i ymholiadau eglurhad gan Lywodraeth Cymru, fe'i hailgyflwynwyd ym mis Chwefror 2024 a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 19 Mehefin 2024.
- vi. Mae Canllaw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddau asesiad o'r angen gael eu nodi drwy'r ALISTh, un ar gyfer 5 mlynedd gyntaf y cyfnod ALISTh hyd at 2026, ac ar gyfer yr ail gyfnod CDLIN llawn hyd at 2036.
- vii. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r ALISTh diweddaraf, amcangyfrifir bod y ddarpariaeth lleiniau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod astudiaeth yr ALISTh hyd at 2026 ar gyfer 9 llain a'r angen am weddill y cyfnod CDLI newydd yw 2 llain arall sy'n rhoi cyfanswm angen o 11 llain erbyn diwedd cyfnod y CDLIN hyd at 2036 ac a oedd yn cynnwys cyfuniad o leiniau anawdurdodedig; gorlenwi; symudiad o frics a mortar; a rhagweld patrymau aelwyd newydd oherwydd plant sy'n troi'n 18 yn ystod cyfnod y cynllun.
- viii. Er gwaethaf cynnwys yr ALISTh, mae'r papur cefndir yn ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd ers i'r ALISTh gael ei gwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys

newidiadau i statws safleoedd sipsiwn a theithwyr a oedd yn destun ceisiadau cynllunio ac a oedd yn cael eu hystyried gan y Cyngor ar adeg y paratowyd yr ALISTh, a newidiadau sydd wedi digwydd i berchnogaeth safleoedd a chyfansoddiad grwpiau teuluol dilynol, yn enwedig oedran plant sy'n byw mewn safleoedd a nodwyd.

- ix. Yn hyn o beth, mae'r papur cefndir yn nodi angen diwygiedig tymor byr i dymor canolig o 1 llain hyd at 2026 sy'n deillio o aelwyd hysbys sydd ar hyn o bryd mewn llety brics a morter gyda 2 blentyn ar oedran cyn-ysgol. Ynghyd â'r angen tymor byr i ganolig hwn, mae'r papur cefndir hefyd yn nodi angen diwygiedig yn y tymor hwy hyd at ddiwedd y cyfnod CDLIN o 7 llain yn deillio o newidiadau i broffil oedran plant mewn safleoedd sipsiwn a theithwyr hysbys ym Mro Morgannwg.
- x. Mae'r papur cefndir yn ystyried y newidiadau hyn ac yn cynnig dull o ddarparu ar gyfer yr angen diwygiedig a nodwyd i sipiwn a theithwyr ym Mro Morgannwg drwy'r CDLIN gan gynnwys cynnal y dyraniad presennol o safleoedd a pholisi diwygiedig i asesu ceisiadau yn y dyfodol ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr.



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

